



Adroddiad Arolygu ar gyfer

21 Towyn Way

Pontypridd

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/11/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

21 Towyn Way

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Values in Care Ltd
Lleoedd cofrestredig	5
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	17/09/2021
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i dreulio eu hamser mewn ffordd gadarnhaol yn ystod y dydd drwy wneud gweithgareddau y maent yn eu mwynhau. Defnyddir dull cynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn nodi canlyniadau personol y bobl. Yn gyffredinol, mae'r cynlluniau personol yn amlinellu anghenion gofal unigol, ond ni chânt eu hadolygu'n ddigon aml i fodloni'r gofynion. Mae asesiadau risg a strategaethau i reoli risg ar waith. Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac o safon dda. Caiff meddyginiaethau eu cofnodi a'u rheoli'n effeithiol. Mae'r bobl yn cael cymorth i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau ac mae'r perthnasau'n fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan y gwasanaeth.

Mae angen cryfhau'r trefniadau rheoli ac mae angen gwella'r sefyllfa staffio am ei bod yn ansefydlog o hyd. Mae'r polisiâu a'r gweithdrefnau'n cynnal diogelwch a llesiant y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Caiff staff eu recriwtio'n ddiogel ond mae angen cryfhau'r trefniadau goruchwylio a hyfforddi. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal ymweliadau rheoleiddio ac yn llunio adroddiadau sicrhau ansawdd a dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn hapus yn gweithio i'r gwasanaeth.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau a chydabyddir bod pob un ohonynt yn wahanol. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r cynlluniau personol yn ystyried cryfderau ac yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal sgiliau'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn ystyried hobiau a diddordebau'r bobl. Mae'r bwydlenni'n cynnwys bwydydd y mae unigolion yn eu hoffi. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli ac yn cynnwys eitemau sy'n adlewyrchu diddordebau'r bobl a chydberthnasau teuluol pwysig. Nid oes tystiolaeth yn yr adolygiadau i ddangos bod y gwasanaeth yn ymgynghori â'r bobl a'u perthnasau ond cadarnhaodd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cymryd rhan weithredol yn y broses hon.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi llesiant emosiynol a chorfforol y bobl. Mae'r bobl yn mynychu apwyntiadau iechyd rheolaidd a chaiff atgyfeiriadau amserol eu gwneud. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am anghenion gofal y bobl a lefel y gofal sydd ei angen arnynt. Mae asesiadau risg yn sicrhau bod y staff yn deall sut i leihau risgiau posibl i'r eithaf ac yn darparu gofal priodol. Mae strategaethau ar waith i sicrhau bod y staff yn deall sut i reoli ymddygiadau a all fod yn heriol. Caiff meddyginiaethau eu storio, eu cofnodi a'u rhoi yn ddiogel. Ceir dealltwriaeth o'r lefelau staffio unigol ar gyfer pob person a chydymffurfir â'r lefelau hyn. Mae'r bobl yn cael cymorth i gadw mewn cysylltiad ag aelodau o'r teulu a'r rheini sy'n bwysig iddynt. Mae'r staff gofal yn dangos ymrwymiad i'w gwaith ac maent yn gefnogol iawn o'r rhai sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r amgylchedd wedi'i addurno i safon dda ac mae'n ymddangos yn gartrefol ac yn gysurus.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i aros yn ddiogel ond mae angen gwella rhai agweddau ar y trefniadau rheoli a staffio. Nid oes modd cael mynediad heb awdurdod i'r gwasanaeth. Mae'r adeilad mewn cyflwr da a chaiff gwaith atgyweirio ei gwblhau mewn modd amserol. Mae amrywiaeth o bolisiau cyfredol ar waith er mwyn cefnogi'r broses o redeg y gwasanaeth. Yn ôl y staff gofal, mae diffyg staff yn creu problemau ar adegau a byddai cael mwy o staff yn gymorth iddynt. Mae rheolwr cofrestredig y gwasanaeth wedi bod yn absennol ers sawl mis; mae trefniadau rheoli dros dro ar waith ar hyn o bryd ond mae angen eu cryfhau.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn ymddangos yn hapus ac yn gartrefol ac maent yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Gwelsom y bobl yn cael y lefel gywir o ofal i'w galluogi i symud o gwmpas yr amgylchedd fel y mynnant. Ni allai'r bobl roi adborth ar lafar ar ddiwrnod yr arolygiad ond roeddent yn ymddangos yn gyfforddus ac yn gartrefol o fewn y gwasanaeth. Dywedodd perthnasau wrthym am drefniadau ymweld hyblyg a staff cyfeillgar. Yn ôl y perthnasau, mae'r gofal a ddarperir o safon dda iawn ac maent yn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch newidiadau. Mae'r sylwadau'n cynnwys:

"The staff are very good."

"They (staff) are excellent, they feel like extended family."

"They do loads of activities and are always out."

Cynhelir amrywiaeth o weithgareddau unigol. Gall y bobl ddefnyddio adnodd dydd mewnol sy'n rhoi cyfle iddynt ddatblygu cyfeillgarwch ehangach a chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Gwelsom dystiolaeth bod sesiynau un i un yn cael eu cynnal â'r staff gofal a dywedodd y perthnasau wrthym fod y bobl yn cael cyfle i fynd ar wyliau â chymorth.

Yn gyffredinol, mae cynlluniau personol manwl ar waith. Roedd y cynlluniau y gwnaethom edrych arnynt yn nodi'r drefn o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael cymorth cyson yn y ffordd y maent yn ei hoffi. Caiff cryfderau, diddordebau a dewisiadau'r bobl eu cofnodi. Mae cynlluniau cyfathrebu yn sicrhau bod y staff yn deall y ffordd fwyaf effeithiol o ymgysylltu â'r bobl a'u cefnogi. Mae cynlluniau ymddwyn yn nodi ffyrdd o reoli ymddygiadau a all fod yn heriol. Mae'r staff gofal yn llofnodi'r cynlluniau i ddangos eu bod wedi darllen a deall y dogfennau hyn. Gwnaethom nodi nad oedd newidiadau diweddar i anghenion deietegol un person wedi cael eu cynnwys yn ei gynllun personol. Fodd bynnag, ar ôl siarad â'r staff, roeddem yn teimlo'n hyderus bod y wybodaeth hon wedi cael ei rhannu â'r tîm staffio. Mae'r cofnodion yn dangos na chaiff adolygiadau eu cynnal yn ddigon aml i fodloni'r gofynion. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Caiff meddyginiaethau eu rheoli'n dda. Roedd y cofnodion rhoi meddyginiaeth a welsom wedi'u cwblhau'n briodol, sy'n awgrymu bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y rhagnodwyd. Mae trefniadau diogel ar waith i storio meddyginiaeth. Mae cofnodion meddyginiaeth PRN (fel sy'n ofynnol) yn dangos y rheswm dros eu defnyddio a'u heffeithiolrwydd. Mae gwiriadau tymheredd dyddiol ystafelloedd yn sicrhau bod meddyginiaeth yn parhau'n effeithiol. Mae'r awdurdodiadau cywir ar waith i'r bobl hynny na allant gydsynio bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi.

Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r eiddo wedi'i addurno i safon dda ac yn addas i'r bobl a gefnogir. Mae rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw, ailaddurno ac atgyweirio ar waith.

Mae trefniadau diogelwch da ar waith sy'n sicrhau mai dim ond ymwelwyr cymeradwy sy'n cael mynd i mewn i'r adeilad. Yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth yn cynnal gwiriadau diogelwch, cyfleustodau a diogelwch tân priodol i sicrhau bod y bobl mor ddiogel â phosibl. Gwnaethom nodi bod angen gwella ymarferion tân er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn ddigon aml i fodloni'r gofynion. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad ar waith er mwyn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn deall y cymorth sydd ei angen ar y bobl os bydd argyfwng. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei storio'n briodol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau ond mae angen ystyried y lefelau staffio ymhellach. Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r staff gofal eu bod yn gweithio'n dda gyda'u cydweithwyr fel tîm a'u bod yn teimlo eu bod yn darparu gofal o safon dda i'r bobl a gefnogir ganddynt. Mae'r sylwadau'n cynnwys:

"We put the residents first."

"Staff help people to live their best life possible."

"They are the best team of staff".

"Plenty of support and it's the best company I have worked for."

Dyweddodd y staff gofal wrthym fod y lefelau staffio wedi bod yn anodd. Ar ddiwrnodau pan fo llai o staff, maent yn dweud ei bod yn anodd rheoli anghenion gofal a chynnal gweithgareddau cymdeithasol, paratoi bwyd, a chyflawni tasgau o gwmpas y cartref ar yr un pryd. Mae'r sylwadau'n cynnwys:

"Staff are currently picking up extra shifts, but we can't keep doing that. We need one extra person."

"If we (core staff) are not there, I don't know what would happen."

"We are short staffed sometimes but manage to pull through."

"We do what we can when the numbers are low."

Nid yw'r trefniadau staffio yn ddigonol, *"this means people can't always do activities"*.

Roedd y rotas staff a welsom yn dangos bod y lefelau staffio yn amrywio a bod y staff presennol yn aml yn gweithio oriau ychwanegol i gyflenwi sifftiau. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae angen gwella'r trefniadau goruchwyllo a hyfforddi. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael hyfforddiant sefydlu a chyfluoedd cysgodi. Roedd y cofnodion goruchwyllo a welsom yn dangos bod bylchau hir wedi bod rhwng sesiynau goruchwyllo rhai aelodau o'r staff a bod y matrices hyfforddiant yn cynnwys rhai bylchau o ran hyfforddiant craidd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae'r rhain yn feysydd i'w gwella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae systemau ar waith er mwyn helpu i redeg y cartref ond mae angen gwella'r trefniadau rheoli. Caiff gwiriadau recriwtio eu cwblhau i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed ac mae ymgyrch recriwtio barhaus ar waith i ddenu aelodau newydd o staff i'r gwasanaeth. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o bolisïau a gweithdrefnau a gwelsom eu bod yn gynhwysfawr, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn addas at y diben. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal ymweliadau bob tri mis yn unol â'r gofynion rheoliadol a chaiff adroddiadau sicrhau ansawdd chwe misol eu cwblhau'n ddigon aml hefyd. Yn ôl y trafodaethau a gafwyd â'r rheolwr dros dro/uwch aelodau o'r staff, nid oes

digon o amser yn cael ei neilltuo i gwblhau tasgau rheoli, helpu staff newydd i ymgysfarwyddo â'r gwasanaeth, a diweddarau dogfennau gofal. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
34	Nid yw darparwr y gwasanaeth bob amser yn sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd i gyflawni canlyniadau pobl a chwblhau tasgau dyddiol.	Newydd
72	Nid yw'r trefniadau rheoli dros dro yn ddigon cadarn i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol.	Newydd
16	Nid yw'r gwasanaeth yn cynnal adolygiadau'n ddigon aml i fodloni'r gofynion.	Newydd
36	Nid yw'r gwasanaeth yn darparu cyfleoedd goruchwyllo na hyfforddi rheolaidd.	Newydd

Dyddiad Cyhoeddi 12/01/2023